# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 27AIN MAWRTH, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Jasmine Jones**

**01286 679667**

**jasminejones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Iau, 19 Mawrth 2026)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Gwilym Jones | Aelod Lleol |
| June Jones | Aelod Lleol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Dr Melfyn Edwards | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Chris Fisher | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| David Williams | Deputy - Aberdyfi Harbour Consultative Committee |
| R Medwyn Hughes | Cabinet Member for Economy and Community |
| John Brynmor Hughes | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| Ian Baylis | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw fater brys yn ôl barn y Cadeirydd i'w ystyried.

## 4. COFNODION — 4 - 10

Y Cadeirydd i gynnig bod cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30/09/25 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR — 11 - 19

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 30/10/26.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 30/09/25

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd)
Y Cynghorydd Richard Medwyn Hughes (Cyngor Gwynedd) (Aelod Cabinet Economi a Chymuned)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Daniel Arthur Cartwright (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) a Jasmine Jones a Gwen Roberts (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Chris Fisher (Sefydliad y Bad Achub Criccieth), Desmond George, Robert Owen a Melfyn Edwards.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Bu i'r Cyng. Gwilym Jones gael ei ethol yn Gadeirydd ar gyfer 2025/26.

**2. IS-GADEIRYDD**

Bu i'r Cyng. June Jones gael ei ethol yn is- gadeirydd ar gyfer 2025/26.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Chris Fisher (Sefydliad y Bad Achub Criccieth), Desmond George, Robert Owen a Melfyn Edwards.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 04/03/25 fel rhai cywir.

Nodwyd bod angen cadarnhau'r penderfyniad i ethol y tri aelod newydd a nodwyd yng nghofnodion 04/03/25 gyda'r Cabinet. Mynegwyd y gobaith y bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn cyfnod 2026/27.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

(1) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr Harbwr am y cyfnod 2025/26.

Data Perfformiad

Nodwyd bod cytundebau angori ym Mhorthmadog bellach wedi cynyddu i 109. Nodwyd ymhellach bod y ffigurau ar gyfer cytundebau angori ar gyfer tymor 2025 yn cymharu'n ffafriol â blynyddoedd blaenorol. Er bod amrywiadau rhwng harbyrau unigol, roedd y ffigurau cyffredinol wedi aros yn gyson, sy'n gadarnhaol. Ymhelaethwyd bod cynnydd o 8% wedi bod yn nifer y cytundebau angori ym Mhorthmadog dros y tair blynedd ddiwethaf.

Nodwyd bod y Gwasanaeth yn gofyn yn garedig i holl gyflenwyr a deiliaid angorfeydd o fewn yr Harbwr ddarparu manylion yr holl gychod a'u cwsmeriaid i swyddfa'r Harbwr cyn gynted â phosibl.

Nodwyd bod cynnydd o 10% wedi bod yn nifer y cychod pŵer a gofrestrwyd gyda Chyngor Gwynedd y tymor hwn o gymharu â'r llynedd, gan godi o 2,141 i 2,362. Atgoffwyd bod cychod pŵer bellach yn cael eu cofrestru ar-lein ac felly nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y gyllideb gyffredinol, gyda'r ystadegau'n ymwneud â'r cwsmeriaid sy'n dod i'r swyddfa i dalu am ffioedd lansio dyddiol yn unig.

Adborth a dderbyniwyd am Harbwr Porthmadog

Nodwyd bod arwyddion gyda 'QR Codes' wedi'u lleoli o gwmpas yr harbwr i dderbyn sylwadau gan ddefnyddwyr ynglŷn â'u profiad o'r harbwr. Nodwyd bod ffigyrau a dderbyniwyd am Harbwr Porthmadog yn dangos cynnydd mewn adborth 'positif' a dderbyniwyd, ynghyd â'r ymdrechion a wnaed gan yr adran i wella profiad cwsmeriaid ac ymwelwyr ymhellach. Esboniwyd bod yr adborth hwn wedi bod yn ddefnyddiol iawn er mwyn gwella'r gwasanaeth yn yr harbwr.

Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

Nodwyd bod y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Cadarnhawyd penodiad diweddar Mr Owen Morgan, Rheolwr Harbwr ar gyfer Cyngor Ceredigion, fel ein 'Person Dynodedig' newydd. Ymhelaethwyd bod Mr Morgan yn cynnal yr archwiliad nesaf yn ystod misoedd y gaeaf ac yn rhoi arweiniad er mwyn sicrhau bod yr harbwr yn cwrdd â gofynion diweddaraf y PMSC. Nodwyd fod Aelod Cabinet Economi a Chymuned, Medwyn Hughes, wedi'i benodi fel y 'dalwr dyletswydd' newydd.

Nodwyd bod cyfleodd hyfforddiant a datblygiad parhaus yn cael eu cynnig i'r staff morwrol. Cyhoeddwyd bod un aelod o staff yn ddiweddar wedi cwblhau'r 'Diploma Harbwrfeistr', tra bod aelod arall wedi dechrau'r cwrs 'UKHMA Harbour Master

Certificate' diweddaraf. Dymunwyd pob llwyddiant iddynt gyda'u datblygiad proffesiynol.

Oherwydd natur eu gwaith, nodwyd bod swyddogion yr harbwr ar adegau wedi profi ymddygiad difrïol, bygythiol ac ymosodol. Er mwyn sicrhau diogelwch staff a'r cyhoedd, esboniwyd bod swyddogion nawr yn gorfod gwisgo camerâu cyrff i roi gwarchodaeth iddynt, ac i recordio unrhyw ddigwyddiadau. Nodwyd bod sawl achos o ymddygiad difrifol wedi codi yn ystod 2024, ond ers 2025 mae'r niferoedd wedi lleihau, sydd yn dangos gwerth y camerâu cyrff. Nodwyd ymhellach bod ceisiadau i dderbyn copïau recordiau teledu cylch cyfan o'r harbwr wedi'u derbyn yn ystod y flwyddyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

Cyhoeddwyd nad oes unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau morwrol wedi'u hadrodd i 'MAIB' hyd yn hyn eleni.

<u>Trinity House GLA (Awdurdod Goleudai Cyffredinol)</u>

Adroddwyd bod un flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth yw sicrhau mordwyo diogel i'r holl forwyr sy'n defnyddio ein dyfroedd. Nodwyd, fel 'AGLI' (Awdurdod Goleudy Lleol) cofrestredig, ein bod yn cynnal arolygon rheolaidd o sianel yr harbwr i sicrhau bod yr holl Gymhorthion Mordwyo Lleol wedi'u lleoli'n gywir ac yn gweithio'n iawn. Nodwyd bod yr adroddiad diweddaraf yn codi at y casgliad bod 95.47% o Gymhorthion Mordwyo Cyngor Gwynedd ar gael, gyda'r gwasanaeth yn cael ei ystyried mewn "Cyflwr Da".

<u>Materion Ariannol</u>

Rhoddodd yr Uwch Swyddog Harbyrau a Rheolwr Gwasanaeth Morwrol grynodeb byr o gyllidebau'r Harbwr ar gyfer y cyfnod 01/04/25 – 31/03/26 (Adolygiad Awst 2025), a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad. Nodwyd yn benodol:

- Bod tanwariant sylweddol (£12,928) o dan y pennawd 'adeiladau', a allai fod oherwydd nad oedd angen gwaith o ganlyniad i waith cynnal a chadw effeithlon.
- Bod gorwariant bychan (£3,906) o dan y pennawd 'gweithwyr'.
- Bod tanwariant bychan (£154) o dan y pennawd 'cludiant'.
- Bod gorwariant bychan (£522) o dan y pennawd 'cyflenwad'.
- Bod gwariant un-amser o £3,384 wedi'i wneud er mwyn hwyluso gwaith ffensio ar loc yr Harbwr.
- Ar y cyfan, rhagwelir tanwariant o £3,050.
- Bod incwm wedi bod yn well ar y cyfan y tymor hwn, ond er hynny, mae'r ffaith bod y system gofrestru wedi'i symud i system ar-lein yn golygu bod y mwyafrif o'r incwm yn mynd i'r gyllideb traethau, nid yr harbwr, sydd yn esbonio'r diffyg yn yr incwm a ragwelwyd ar gyfer y tymor (£5,604).
- Bod y maes parcio yn ffynhonnell incwm da. Gobeithir y bydd targedau incwm yn cael eu cyrraedd erbyn diwedd y tymor.

<u>Materion Allweddol Eraill</u>

Nodwyd sawl materion allweddol eraill:

- Cefnogwyd y gwaith o ddatblygu swyddfa'r harbwr a'r lloc allanol drwy 'gronfeydd wrth gefn' adrannol.

- Gofynnwyd i Heddlu Gogledd Cymru am luniau o system teledu cylch cyfyng newydd yr harbwr ar sawl achlysur eleni i gynorthwyo gydag ymchwiliadau i ddigwyddiadau yn ardal yr harbwr.
- Bod sawl digwyddiad o ddwyn moduron allanol wedi'u hadrodd ar hyd yr arfordir; roedd y digwyddiad diweddaraf ym Mhorth-y-gest. Mae'r gwasanaeth yn cynghori y dylai unrhyw un sydd â gwybodaeth berthnasol gysylltu â HGC.
- Bod cychod patrôl morwrol (y 'Powercats') yn cydymffurfio'n llawn â gofynion codio 'Cat 6' ar ôl iddynt gael eu harchwiliad blynyddol gan yr YBDSA.
- Nodwyd bod y gwasanaeth wedi gweld lefelau staffio is mewn rhai safleoedd dan oruchwyliaeth. Fodd bynnag, nodwyd bod swyddogion harbwr wedi darparu cefnogaeth a chymorth gwerthfawr pan fo angen.
- Nodwyd bod trafodaethau'n parhau gyda Chlwb Rhwyfo Porthmadog ynglŷn â chytundeb prydles ffurfiol ar gyfer yr ardal o fewn lloc allanol yr harbwr a ddefnyddir i storio cychod rhwyfo'r Clwb. Adroddwyd nad oes gan y gwasanaeth unrhyw wrthwynebiadau i'r cytundeb arfaethedig ac mae'n nodi bod y Clwb Rhwyfo yn parhau i gynnal yr ardal i safon uchel.

<u>Trafodaeth</u>

Mynegwyd llongyfarchiadau i'r tîm yn Harbwr Porthmadog am ganlyniadau'r holiaduron adborth cadarnhaol. Cydnabuwyd y gwaith caled sydd yn mynd i mewn i reoli'r harbwr er mwyn derbyn sylwadau mor bositif. Cwestiynwyd faint o ddefnyddwyr sydd wedi ymateb i'r holiadur a faint o ymatebion mae'r canran 2% yn cyfateb iddynt. Mewn ymateb, nodwyd bod oddeutu 30-35 o ymatebion i'r holiadur yn cael eu derbyn bob mis ar gyfartaledd.

Cwestiynwyd pa fath o unigolion sydd yn arddangos ymddygiad difrifol tuag at weithlu'r harbwr. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn amrywio, ond yn benodol mae'n ymwneud ag ymwelwyr i'r harbwr. Ymhelaethwyd bod ymddygiad anghymdeithasol yn rhan helaeth o'r achosion, ac y bydd camerâu cyrff yn effeithiol i anghymell y fath ymddygiad a lleihau tensiynau.

Mynegwyd siom bod gweithlu'r harbwr yn profi ymddygiad difrïol, bygythiol ac ymosodol. Pwysleisiwyd yr hawl i bawb deimlo'n ddiogel yn y gweithlu. Cwestiynwyd a yw'r camerâu cyrff yn ddigon i daclo'r broblem, neu a oes angen uchafu'r mater i iechyd a diogelwch/yr heddlu. Mewn ymateb, nodwyd bod pob achos yn cael ei uchafu i iechyd a diogelwch ac, pan fo'n briodol, i'r heddlu. Nodwyd ymhellach bod hyfforddiant ar gael i'r staff ar sut i ymateb yn briodol i'r fath ymddygiad, ond mae'n anodd darparu'r hyfforddiant i weithwyr tymhorol.

Nodwyd bod agweddau defnyddwyr yr harbwr wedi newid ers cyfnod COVID. Esboniwyd bod un achos difrifol wedi digwydd y tymor hwn ar draeth Morfa Bychan, lle'r oedd rhaid i'r heddlu ddod i'r safle. Cadarnhawyd bod gweithdrefnau'r Cyngor yn cael eu dilyn mewn pob achos o ymddygiad difrïol. Nodwyd er bod staff tymhorol ddim yn mynd ar gyrsiau sydd yn ymwneud â delio ag ymddygiad bygythiol, maent yn derbyn cyfarwyddiadau a hyfforddiant gan brif swyddogion ar sut i ddelio ag achosion ymddygiad difrïol, bygythiol ac ymosodol.

Cadarnhawyd bod mesurau da yn bodoli o fewn y gwasanaeth i ymateb i achosion o ymddygiad difrïol, bygythiol ac ymosodol. Nodwyd bod y gwasanaeth yn edrych i fuddsoddi ymhellach i archebu mwy o gamerâu cyrff, gan fod rhai erbyn hyn wedi dyddio. Mynegwyd diolchgarwch am fod swyddogion profiadol o fewn y gwasanaeth sydd yn gallu ymateb yn addas i'r fath ymddygiad. Mynegwyd barn nad oes angen

uchafu'r sefyllfa ar hyn o bryd, ond er hynny, mae'r gwasanaeth yn adnabod y risgiau cysylltiedig ag yn ei fonitro'n gyson.

Mynegwyd diolchgarwch trigolion Porthmadog am gymorth swyddogion yr Harbwr wrth y traeth yn ystod yr haf.

(2) Adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2025 a Medi 2025, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

Nodwyd bod tywydd braf wedi arwain at fwy o weithgarwch ar y dŵr, gan gynnwys cychod hwylio, cychod pŵer, a mwy o badl-fyrddau. Nodwyd bod angorfeydd dŵr dwfn newydd wedi'u hagor i ymwelwyr, sydd wedi profi i fod yn boblogaidd.

Nodwyd ers dwy flynedd bod cwsmeriaid sydd eisoes ar y llyfrau wedi cael eu gofyn i ddefnyddio'r system gofrestru angorfa ar-lein, ond er hyn, dim ond 30 allan o 106 sydd wedi cofrestru ar-lein. Pwysleisiwyd bod y gwasanaeth yn edrych i ychwanegu system debyd uniongyrchol ar gyfer tymor nesaf.

Nodwyd bod dau Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym:
- Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 5/25. 07-05-2025 Banc Tywod yn Symud yn y Sianel rhwng y "Lookout Post" a'r "Danger Rock". Cynghorir morwyr i lywio'n ofalus yn yr ardal hon.
- Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 10/25 (25-08-2025) Mae Marc Starbord Borth y Gest Rhif 15 oddi ar ei safle ar hyn o bryd.

Nodwyd bod 'Dixie' y ddraig yn parhau i fod yn atyniad poblogaidd iawn gyda phobl leol ac ymwelwyr, gan dderbyn adborth cadarnhaol, yn enwedig gan blant sy'n tynnu lluniau wrth ei hymyl. Atyniad nodedig arall yw'r gosodiad newydd gan Howard Bowcott, sy'n denu sylw sylweddol. Nodwyd bod y gwasanaeth yn ymchwilio i'r posibilrwydd o osod goleuadau Nadolig ar oddi amgylch yr Harbwr. Nodwyd bod trafodaethau'n parhau ynglŷn ag adleoli'r hen 'hoist' i ardal yr harbwr fel gosodiad ychwanegol.

Ynglŷn â'r maes parcio, nodwyd bod y gwasanaeth yn bwriadu gosod peiriant 'Talu ac Arddangos' solar newydd yn y maes parcio dros y gaeaf. Nodwyd ymhellach bod pryderon wedi cael eu codi ynglŷn â'r defnydd o'r maes parcio gan gerbydau mawr a chartrefi modur, sy'n amharu ar symudiad defnyddwyr eraill. Mewn ymateb, nodwyd bod arwyddion newydd wedi'u gosod sy'n nodi bod y maes parcio ddim yn addas ar gyfer y math yma o gerbydau.

Ynglŷn â Borth-y-Gest, nodwyd bod y gatiau llifogydd wedi dioddef rhywfaint o ddifrod i'r cloeon. Ymhelaethwyd bod y gwasanaeth wedi gofyn am gymorth gan adrannau eraill i gywiro'r broblem. Nodwyd ymhellach bod un mainc newydd wedi'i gosod wrth yr eglwys, 5 mainc wedi'u hadnewyddu ar yr harbwr ac mae Cyngor Tref Porthmadog wedi dangos diddordeb i osod a chynnal dwy mainc newydd.

Ynglŷn â lloc yr harbwr, nodwyd bod dau bad concrit newydd wedi'u gosod i ddarparu arwyneb gwaith glanach a mwy defnyddiol. Nodwyd bod ffensys newydd wedi'u gosod ar ochr orllewinol y lloc i gyd-fynd â'r gatiau newydd wrth fynedfa'r lloc. .

Esboniwyd y bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys adnewyddu'r giât fewnol, ffensys newydd a phlanhigion mewn tybiau.

Ynglŷn â swyddfa'r harbwr, nodwyd bod gwaith wedi dechrau i greu ystafell newydd tu mewn i'r adeilad i ddarparu swyddfa newydd ar y cyd ar gyfer yr Uwch Swyddog Harbwr a'r Swyddog Traethau. Nodwyd bod hyn hefyd wedi golygu bod modd adleoli'r ffreutur i ardal newydd, gan roi mwy o breifatrwydd i staff sy'n defnyddio'r cyfleusterau newid a thoiledau.

Ynglŷn â digwyddiadau, adroddwyd bod un wedi'i gynnal yn ystod y cyfnod dan sylw, sef digwyddiad 'Vintage Motorbike'.

Nodwyd bod digwyddiad trist wedi digwydd ar ddechrau'r cyfnod, wrth i swyddogion yr harbwr darganfod preswyliwr  cwch wedi marw. Diolchwyd i holl aelodau'r staff am eu gwaith yn ystod y cyfnod heriol hwn.

<u>Trafodaeth</u>

Cwestiynwyd os oes penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â pha addurn/geiriau i'w rhoi ar y bwi sydd wedi'i osod wrth y lôn. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd penderfyniad wedi'i wneud hyd at hyn, ond croesawyd unrhyw awgrymiadau. Nodwyd ymhellach, gan ei bod ar brif ffurf, mae'r opsiynau'n gyfyngedig o ran beth sydd yn cael ei roi arno rhag ofn iddo dynnu llygad gyrwyr oddi wrth y ffordd.

Diolchwyd i'r Harbwrfeistr a'i dîm am eu gwaith dros y cyfnod. Diolchwyd hefyd i'r staff a oedd yn bresennol yn ystod y sefyllfa drist, ac ymatebwyd gyda phwyslais ar y pwysigrwydd o ystyried lles meddyliol staff. Cwestiynwyd os oedd cynnig cwnsela wedi'i roi i'r staff yn dilyn y sefyllfa hon. Mewn ymateb, nodwyd bod pob aelod o staff sydd yn ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath yn cael cynnig cwnsela. Pwysleisiwyd bod y penderfyniad i fanteisio ar y cynnig hwn yn benderfyniad personol i'r aelod staff.

Ynglŷn â digwyddiadau, holiwyd os yw'n werth cydweithio gyda'r swyddog digwyddiadau yn yr adran economi er mwyn denu mwy o ddigwyddiadau i'r harbwr. Mewn ymateb, nodwyd bod gwaith cydweithio yn mynd rhagddo yn benodol ar gyfer dathliad 200 mlynedd yr harbwr. Mynegwyd bod efallai lle i hybu adnoddau'r harbwr yn well ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cwestiynwyd os bydd cyfnod o ymgysylltu yn cael ei gynnal yn lleol ynglŷn â'r penderfyniad i symud yr hoist o Gob Crwn i'r harbwr. Mewn ymateb, nodwyd bod yr awgrym o gael ymgynghoriad lleol yn un synhwyrol. Nodwyd ar hyn o bryd bod yr 'hoist' ddim yn cael ei chynnal a chadw ac yn risg ei golli yn dilyn cyfnod o dywydd drwg. Ymhelaethwyd bod dim penderfyniad cadarn wedi'i wneud hyd at hyn, ac y byddai'r adran yn fodlon gadael yr 'hoist' yn Cob Crwn os dyma yw'r penderfyniad gorau. Cadarnhawyd y bydd y cam nesaf yn cynnwys cynnal trafodaeth gyda'r aelodau lleol.

**PENDERFYNWYD Nodi a derbyn yr adroddiad.**

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 03/03/26.

Dechreuodd y cyfarfod am 5:30yp a daeth i ben am 6:36yp.

________________________________
(Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| **Dyddiad:** | 27 Mawrth 2026 |
| **Awdur:** | Uwch Swyddog Harbwr |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Rheoli Gwasanaeth |

## 1 CEFNDIR

1.1 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelwch a datblygu'r harbwr a derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion rheoli sy'n gysylltiedig â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

## 2. ADRODD AR FATERION RHEOLI GWASANAETH

Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth.

### i) <u>Data Perfformiad</u>

2.1 Caiff y data isod ei gasglu fel rhan o drefniadau monitro a rheoli perfformiad y Gwasanaeth Morwrol.

| Mesur | 2023/4 | 2024/5 | 2025/6 |
|---|---|---|---|
| Cytundebau Angori | | | |
| Porthmadog | 106 | 109 | 106 |
| Abermaw | 71 | 78 | 81 |
| Aberdyfi | 73 | 79 | 83 |

2.2 Mae'r ffigurau a ddarparwyd yn parhau i fod yn gyson â'r rhai a rannwyd yng nghyfarfod mis Hydref, fodd bynnag, yn ystod y gaeaf, mae swyddfa'r Harbwr wedi derbyn sawl ymholiad ynglŷn ag angorfeydd cwsmeriaid newydd yn Harbwr Porthmadog. Mae hyn yn arwydd calonogol bod y niferoedd yn debygol o godi eto o gymharu â thymhorau blaenorol. Hoffai'r gwasanaeth ddiolch yn ddiffuant i staff yr harbwr am eu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid a'u proffesiynoldeb yn eu gwaith. Mae eu dealltwriaeth ac ymrwymiad yn allweddol wrth gynhyrchu'r adborth cadarnhaol iawn yr ydym yn parhau i'w dderbyn gan forwyr lleol a chychod sy'n ymweld.

Hefyd, hoffai'r Gwasanaeth Morwrol atgoffa pawb y bydd y gwasanaeth ar-lein ar gyfer ceisiadau angori a chofrestru cychod pŵer yn ail-agor ar 1 Ebrill. Mae'r ffioedd

cofrestru wedi'u newid yn unol â chwyddiant blynyddol, gweler isod y ffioedd a'r costau diweddaraf.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn casglu data ar foddhad cwsmeriaid / defnyddwyr yr harbwr:

| | 2023/4 | 2024/5 | 2025/6 |
|---|---|---|---|
| **Boddhad Cwsmer** | | | |
| Rhagorol | 40% | 60% | 68% |
| Da Iawn | 30% | 24% | 24% |
| Boddhaol | 20% | 16% | 4% |
| Gwael | 10% | 0% | 2% |
| Gwael Iawn | 0% | 0% | 0% |
| Anhysbys | 0% | 0% | 2% |

Mae'r ffigurau a nodwyd yn gymharol â'r rhai yr adroddwyd arnynt yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Hydref. Oherwydd y nifer isel o bobl dros y gaeaf, rydym yn rhagweld dirywiad yn nifer yr ymatebion adborth sy'n cael eu cyflwyno drwy'r holiadur cod QR. Serch hynny, mae'r adborth a dderbyniwyd mewn gohebiaeth dros e-bost a thrafodaethau wyneb yn wyneb wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi'u croesawu.

Ceir enghraifft isod o adborth a dderbyniwyd gan gwsmeriaid:

*"Diolch i chi a'r Tîm am y gefnogaeth yr wythnos hon. Mae'r gefnogaeth wedi bod yn hollol wych ac wedi golygu ein bod wedi gallu parhau i gefnogi ein preswylwyr sydd fwyaf agored i niwed er gwaethaf yr amodau heriol."*

*"Roedd eich parodrwydd i helpu a'ch agwedd gadarnhaol yn golygu ein bod yn gallu parhau i redeg ein gwasanaethau mor ddi-drafferth â phosib. Diolchaf yn bersonol i chi ac ar ran y Gwasanaeth, ond hoffwn hefyd bwysleisio pa mor werthfawrogol yw ein gofalwyr o'r gefnogaeth maen nhw wedi'i dderbyn. Gall swyddi ein gofalwyr fod yn anodd, ac mae hyd yn oed yn anoddach yn ystod misoedd y gaeaf. Mae natur y swydd yn golygu y gall hi fod yn swydd unig, ac rwy'n siŵr bod y gefnogaeth maen nhw wedi'i brofi yr wythnos hon wedi mynd yn bell o ran rhoi ymdeimlad o werthfawrogiad iddyn nhw."*

*"Diolch i'r holl staff harbwr hyfryd ym Mhorthmadog, diolch yn fawr iawn am eich holl gymorth dros y flwyddyn. Erbyn hyn mae gen i bron i £2000 ar gyfer fy elusen ddewisol."*

*"Mae'r swyddfa yn edrych yn wych ers i'r gwaith gael ei wneud, rydyn ni wrth ein bodd â'r ffenestri."*

*"Darparwyd gwasanaeth rhagorol gan yr Harbwrfeistr cynorthwyol pan ofynnwyd iddo gynorthwyo gydag arolwg hydrograffeg o Harbwr Pwllheli. Mae ei brofiad a'i wybodaeth yn wych ac mae wedi darparu'r gwasanaeth hwn sawl gwaith gan ddefnyddio GP2. Diolchwn yn fawr iawn iddo. Diolch yn fawr iawn."*

Anogir sylwadau cadarnhaol ac adeiladol ar reoli'r harbwr, gan eu bod yn ein helpu i wella'r gwasanaethau a ddarparwn.

**ii) <u>Diogelwch yr Harbwr</u>**

2.3 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn nodi'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd.

Yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Hydref, cafodd yr aelodau eu cynghori, yn dilyn penodi Mr Owen Morgan yn Berson Dynodedig newydd ar gyfer Cyngor Gwynedd, y byddai ef yn cynnal archwiliadau o'r harbyrau dan awdurdod yr adran Forwrol, sef harbyrau Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Hafan Pwllheli.

Yn 2025, rhoddodd addasiadau i'r PMSC arweiniad mwy clir ac fe wnaeth hyn gryfhau'r gofynion ar gyfer rhanddeiliaid a sefydliadau yn gweithredu o fewn cyfyngiadau'r harbwr. Dyluniwyd y newidiadau hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a systemau rheoli diogelwch morol sy'n gorgyffwrdd yn cyd-fynd â'i gilydd yn effeithiol. O ganlyniad, cyhoeddwyd ymarfer cydymffurfio cenedlaethol i'r holl harbyrau i gadarnhau eu bod yn cadw at godau unigol ac i sicrhau bod mesurau priodol yn eu lle i ymdrin ag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

Mae'r adran yn falch o gyhoeddi bod Mr Morgan wedi cwblhau'r archwiliad ym mis Chwefror. Yn dilyn adroddiad cadarnhaol, mae'r Gwasanaeth bellach mewn sefyllfa i gyflwyno ei Datganiad Cydymffurfio cyn diwedd mis Mawrth a chyhoeddi ei dogfennaeth PMSC ar wefan Cyngor Gwynedd.

**Stormydd y Gaeaf**

Yn ystod gaeaf 2025/26, profodd yr ardal unwaith eto gynnydd yn nifer y stormydd, yn bennaf o gyfeiriad y De-De-Ddwyrain. Dim ond un digwyddiad a gofnodwyd yn ystod y cyfnod hwn, yn ymwneud â chwch bach a suddodd wrth ochr wal yr harbwr oherwydd glaw trwm a gwyntoedd cryfion. Ni nodwyd unrhyw bryderon amgylcheddol, ac fe gafodd y cwch ei roi yn ôl yn ei le ar y cyfle cyntaf posib. Er ein bod yn deall bod cwsmeriaid yn awyddus i archwilio neu baratoi eu cwch yn ystod amodau o'r fath, rhaid i ddiogelwch barhau i fod yn flaenoriaeth a dylid osgoi risgiau diangen. Atgoffir cwsmeriaid hefyd i sicrhau bod cychod a'r llinellau angori yn cael eu cynnal a'u cadw yn iawn.

**iii) <u>Adnoddau a Chyllideb</u>**

Tabl diweddaraf ar gyfer Ffioedd 2026/27

Mae crynodeb o'r cyllidebau ar gyfer harbwr Porthmadog i'w weld isod.

| Prisiau yn Cynnwys TAW | 2025/26 | 2025/26 | 2026/27 | 2026/27 | Prices Including VAT |
|---|---|---|---|---|---|
| *Er manteisio ar y ffi 'lleol' mae yn hanfodol fod daliwr yr angorfa wedi bod yn breswyl yn barhaol a llawn amser yng Ngwynedd am y bum mlynedd diwethaf* | Lleol Local Inc. VAT | Eraill Others Inc. VAT | Lleol Local Inc. VAT | Eraill Others Inc. VAT | *For a 'local' rate to apply the applicant must have been resident in Gwynedd on a permanent and full time basis for the previous five years.* |
| Tollau Harbwr y fedr (Ffi blynyddol. Pob cwch) | 52.59 | 52.59 | 54.69 | 54.69 | Harbour Dues per meter (Annual fee. All vessels) |
| Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithrwyd TAW-dim yn daladwy hyd yma) | 33.11 | 33.11 | 33.11 | 33.11 | Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt-not presently charged) |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 1 | 535.10 | 647.16 | 561.86 | 673.05 | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 2 | 498.58 | 614.89 | 523.51 | 639.49 | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 2 |
| | | | | | |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 1 | 481.15 | 593.36 | 505.21 | 617.09 | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 2 | 444.59 | 557.09 | 466.82 | 579.37 | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 2 |
| | | | | | |
| Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 1 | 313.10 | 380.56 | 328.76 | 395.78 | Drying Mooring + Harbour Dues Area 1 |
| | | | | | |
| Trwydded Angorfa-Angorfeydd Preifat (Angorfeydd ol a blaen yn unig) | 75.53 | 75.53 | 78.55 | 78.55 | Mooring License – Private Moorings per mooring (Fore and Aft Moorings all areas) |
| | | | | | |
| ***Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod*** | | | | | ***Visiting Vessels – Daily or part of day*** |
| Cwsmeriaid Harbwr/Marina Cyngor Gwynedd | 15.00 | | 16.00 | | Gwynedd Council Harbour/Marina Clients |
| Pob Cwch Ymweld Arall | | 20.00 | | 22.00 | All Other Visiting Vessels |
| | | | | | |
| ***Ardal 4 Borth-y-Gest*** | | | | | ***Area 4 Borth-y-Gest*** |
| Pris y fedr am flwyddyn (Tollau Harbwr ddim yn daladwy) | 40.76 | 59.87 | 43.21 | 62.86 | Price per meter per annum (Harbour Dues not payable) |
| Cychod Gwieni ar angorfa (Fesul cwch nid fesul HYC) | 33.23 | 33.23 | 34.89 | 34.89 | Small Yacht & Tenders on mooring (per boat not LOA) |
| | | | | | |
| Pris y D.G dyddiol neu rhan diwrnod | 1.36 | 1.36 | 1.41 | 1.41 | Price per G.R.T per day or part of day |
| | | | | | |
| Trwydded Parcio a Lansio – uchafswm 50 llestr | 2,384.78 | | 2,480.17 | | Park and Launch License – max 50 vessels |
| | | | | | |
| Ffi Maes Parcio - Hyd at 2 awr | 3.00 | 3.00 | 3.10 | 3.10 | Car Park Fee - Up to 2 hours |
| Ffi Maes Parcio - Mwy na 2 awr | 6.00 | 6.00 | 6.20 | 6.20 | Car Park Fee - Above 2 hours |
| | | | | | |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | Rule 1/18 | Rule 1/18 | Rule 1/18 | Rule 1/18 | Cancellation of mooring (Discretionary) |

| Ffi Cofrestru Blynyddol | 2025/26 | 2026/27 | Annual Registration Fee |
|---|---|---|---|
| Cofrestru Blynyddol | £75.00 | £80.00 | Annual Registration |
| **Ffi Lansio Blynyddol - Cynnwys Ffi Cofrestru Blynyddol** | | | **Yearly Launching Fee - Inclusive of Annual Registration Fee** |
| Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth) | £190.00 | £196.50 | Annual Launching Permits (1 April – 31 March) |
| **Ffi Lansio Dyddiol** | | | **Daily Launching Fees** |
| Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol | £23.00 | £24.00 | Daily launch – General Slipways/Beaches |
| Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn ogystal â £4 ychwanegol ar gyfer parcio) | £27.00 | £28.15 | Daily launch – Morfa Bychan Beach (plus an additional £4 required for Parking) |
| **Ffi Trosglwyddo / Ailddodiad** | | | **Transfer / Replacement Fee** |
| Ceisiadau drwy'r post yn unig i Morwrol@gwynedd.llyw.cymru | £75.00 | £80.00 | Postal application only to Morwrol@gwynedd.llyw.cymru |
| **Cychod llai na 10 HP a Cychod Hwylio** | | | **Vessels under 10 HP and Sail Boats** |
| Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau Mewn Person yn Unig. Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio. Dim ffi lansio yn daladwy. | £42.00 | £45.00 | Annual Registration – In Person Application Only. At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection. No launching fees charged for small vessel. |

| PORTHMADOG HARBOUR | Financial Performance for the Period 1 April 2025 to 31 March 2026 - November 2025 Review | | |
|---|---|---|---|
| | BUDGET / TARGETS FOR THE PERIOD 1/4/25 TO 31/3/26 | INCOME & EXPENDITURE FORECASTED 1/4/25 TO 31/3/26 | OVER (UNDER) |
| Employees | 79,918 | 83,753 | 3,834 |
| Buildings | 18,870 | 11,146 | (7,724) |
| Transport | 740 | 272 | (468) |
| Supplies & Services | 23,770 | 15,048 | (8,722) |
| One - Off Expenditure - Financed from Reserves | 0 | 31,914 | 31,914 |
| **Total Expenditure** | **123,298** | **142,133** | **18,834** |
| Income | (76,590) | (72,915) | 3,675 |
| Contribution from Reserves Tow | 0 | (31,914) | (31,914) |
| **Total Net** | **46,708** | **37,305** | **(9,404)** |

## iv) Materion Allweddol Eraill

- **Swyddfa'r Harbwrfeistr ac ardal y Lloc**
  Mae'r gwaith yn Swyddfa'r Harbwrfeistr bellach wedi'i gwblhau. Yn ystod y gaeaf, cafodd y swyddfa ei hailwampio i ddarparu lle ar gyfer Swyddog Traethau Porthmadog ac Uwch Swyddog Harbwr. Roedd hyn hefyd yn caniatáu adleoli ffreutur y staff i ardal fwy addas yn yr adeilad, gan sicrhau gwell cyfleusterau lles i staff.









  Mae gwaith ar ardal y lloc yn parhau, gyda rhagor o fanylion i'w darparu yn Adroddiad yr Harbwrfeistr.

- **Staff**

  Achosodd eira sylweddol yn ystod y gaeaf anawsterau i ofalwyr cartrefi gofal oedd yn ceisio cael mynediad at gleifion oedd angen sawl ymweliad dyddiol. Gofynnwyd i'r Uned Forwrol gynorthwyo drwy ddarparu gwasanaeth cludo i nyrsys a gofalwyr, gan ddefnyddio eu cerbydau 4x4 o oriau mân y bore tan yn hwyr yn y nos. Heb y cymorth hwn, efallai na fydd rhai preswylwyr wedi derbyn unrhyw ymweliadau yn ystod y cyfnod heriol hwn. Rydym yn hynod falch o'r staff ac yn ddiolchgar iddyn nhw am y gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu ar ac oddi ar y dŵr.

  Ymatebodd staff morwrol hefyd i ddigwyddiad amgylcheddol yn ardal Cricieth yn ystod y gaeaf. Fe wnaeth staff a hyfforddwyd ar sut i ymateb i ollyngiadau olew defnyddio bwmau, matiau amsugno a deunyddiau eraill i atal y gollyngiad a lleihau'r effaith amgylcheddol.

- **Terra Marique**

  Yn ystod 2026 rydym yn disgwyl bydd yr adweithydd shynt nesaf yn cael ei ddanfon gan y 'Terra Marique'. Fel yn 2024, bwriedir gweithredu hyn ar draeth Morfa Bychan, lle bydd y cwch yn cael ei roi ar y traeth cyn cludo'r adweithydd ar hyd y ffordd i Drawsfynydd (dyddiad i'w gadarnhau).

- **Clwb Rhwyfo**

  Mae cytundeb ffurfiol rhwng y Clwb Rhwyfo a'r Gwasanaeth Morwrol bellach wedi ei gymeradwyo yn dilyn cais i ddefnyddio'r tir yn ardal y lloc. Mae'r Clwb Rhwyfo wedi defnyddio'r ardal ar gyfer storio ers nifer o flynyddoedd, ac rydym yn falch bod cytundeb swyddogol bellach yn ei le rhwng y ddwy ochr.

**3. ARGYMHELLION:**

- 3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. |
| **Dyddiad:** | 27 Mawrth 2026 |
| **Awdur:** | Yr Harbwrfeistr, Malcolm Humphreys |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Gweithredol |

## 1. CEFNDIR

Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol sy'n ymwneud â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

## 2. ADRODD AR FATERION GWEITHREDOL

Cyflwynir y crynodeb isod o safbwynt perfformiad y Gwasanaeth.

### a) <u>Materion Mordwyo</u>

Oherwydd gofynion cynnal a chadw parhaus ac amodau tywydd a môr garw, ar hyn o bryd mae tri Hysbysiad i Forwyr mewn grym yn ymwneud â'r ffordd ddynesu i Harbwr Porthmadog. Mae'r sianel wedi parhau i gael ei monitro trwy gydol y gaeaf. Mae'r banc tywod mawr a ddatblygodd yn ystod y tymor blaenorol yn parhau yn ei le. Felly, cynghorir morwyr i ddynesu yn ofalus at yr ardal yma. Cynghorir cychod sydd â dyfnder sylweddol i lywio'r sianel tua 1.5 awr bob ochr i lanw uchel.

Cynghorir morwyr yn gryf i gysylltu â Swyddfa'r Harbwr a chyfeirio at yr Hysbysiad Lleol diweddaraf i Forwyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â mordwyo i Harbwr Porthmadog.

Mae'r Cymhorthion Mordwyo canlynol "Oddi ar eu Safle" ar hyn o bryd:

Rhif 3 Marc llaw Starboard
Rhif 4 Marc llaw Port
Rhif 12 Marc llaw Port

Fel rhan o'n dyletswydd statudol, mae'n rhaid i ni gynghori morwyr i lywio'n ofalus o fewn y sianel ac wrth agosáu at yr harbwr. Bydd unrhyw Gymhorthion Mordwyo sydd "Oddi ar eu Safle" ar hyn o bryd yn cael eu hail-leoli cyn gynted â phosib, yn amodol ar y tywydd a môr diogel. Ar ôl eu hail-leoli, bydd Hysbysiad i Forwyr wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi, a bydd y wybodaeth hefyd yn cael ei chofnodi ar gronfa ddata LARs Cymhorthion Llywio Lleol Trinity House. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn adroddiad yr Harbwrfeistr.

**b) <u>Materion penodol sydd wedi codi</u>**

**Lloc yr Harbwr**

Fel y soniwyd o'r blaen gan yr Uwch Swyddog Harbwr, mae gwaith gwella yn ardal y lloc yn parhau. Mae ffensys a gatiau cyfansawdd newydd wedi'u gosod yn fewnol ac yn allanol, gan wella diogelwch yr ardal storio a gwella ymddangosiad cyffredinol y lloc. Bydd gwaith pellach yn cynnwys newid y cafnau plannu presennol gyda byrddau cyfansawdd i gyd-fynd â'r ffensys, ynghyd â gwaith ail-wynebu o amgylch yr ardaloedd plannu.
Bydd y cafnau sydd wedi'u storio ar hyn o bryd yn y lloc i'w defnyddio ym Morfa Bychan yn ystod y tymor gweithredol yn cael eu cludo yn ôl i'r safle yn fuan, gan greu gweithle ychwanegol i staff morwrol.

**Clwb Hwylio**

Mae'r Clwb Hwylio wedi newid yr angorfeydd gydag angor a chadwyn i'r pontŵn fel rhan o'i raglen cynnal a chadw wedi'i drefnu.

**TELEDU CYLCH CYFYNG (CCTV)**

Gofynnwyd unwaith eto i'r Gwasanaeth ddarparu lluniau teledu cylch cyfyng i gynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru gydag ymholiadau parhaus yn ardal yr harbwr a'r cyffiniau. Mae'r adran yn croesawu'r ceisiadau hyn ac yn parhau i gynorthwyo lle bynnag y bo modd.

**c) <u>Cynnal a chadw</u>**

2.1 Mae archwiliad blynyddol Cod 3 o'r Cwch Gwaith a gwasanaeth llawn i'r injan wedi eu cwblhau i Gwch Patrôl yr Harbwr. Yn dilyn mân waith cynnal a chadw, mae GP2 bellach yn ôl ac yn barod ar gyfer y tymor sydd i ddod.

2.2 Mae Dwyfor ar hyn o bryd yn cael ei gynnal a'i gadw. Nodwyd sawl mater y tymor diwethaf ynglŷn â chyflwr y cwch, ac mae buddsoddiad wedi'i wneud i atgyweirio'r clytsh, system yr egsost a delio gyda mân ddiffygion eraill. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn mis Ebrill.

2.3 Trefnwyd i angorfeydd yr harbwr gael eu harchwilio eleni. Mae'r gwaith i roi gwasanaeth i'r cadwyni, hualau, bwiau a'r llinellau eisoes wedi dechrau. Cafodd deifwyr masnachol eu contractio i archwilio'r offer i sicrhau bod yr holl angorfeydd yn parhau yn ddiogel ac yn saff i gwsmeriaid.

2.4 Mae staff wedi bod yn paratoi offer angori ar gyfer defnyddio Cymhorthion Mordwyo cyn dechrau'r tymor. Bydd siart lleol newydd yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi unwaith y bydd pob un o’r cymhorthion mordwyo yn y safleoedd cywir.

2.5 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fonitro'r cefnenni tywod sy'n symud ger 'Danger Rock'. Cynghorir morwyr sy'n gweithredu cychod gyda dyfnder o 2 fetr neu fwy i lywio'r rhan hon o'r sianel tua 1.5 awr y naill ochr a'r llall i'r llanw uchel i osgoi mynd i'r tir. Anogir pob morwr i gysylltu â Swyddfa'r Harbwr cyn mynd i mewn neu adael yr harbwr i gael y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf.

2.6 Bydd y peiriant Talu ac Arddangos, sydd wedi'i leoli yn y maes parcio cefn, yn cael ei newid gyda pheiriant newydd i dalu efo cerdyn. Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr, disgwylir i'r newid hwn ddarparu gwasanaeth mwy cyfleus tra hefyd yn lleihau risgiau diogelwch i staff wrth gludo arian parod i'r banc.

2.7 Ar hyn o bryd mae Swyddfa'r Harbwr yn chwilio am wybodaeth am gyfleoedd cyllido posib i symud cychod sydd wedi'u gadael. Mae harbyrau ledled y DU yn parhau i wynebu costau sylweddol sy'n gysylltiedig ag adfer a gwaredu cychod o'r fath.

2.8 Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn cerbyd 4x4 newydd i gefnogi staff Morwrol. Bydd hyn yn caniatáu i swyddogion gyflawni eu dyletswyddau yn ddiogel ac yn effeithlon ar draws ardaloedd yr harbwr a'r traeth.

**d) <u>Digwyddiadau</u>**

3.0 Gofynnir i unrhyw sefydliad sy'n dymuno cynnal digwyddiad yn ardal yr harbwr i gysylltu â Swyddfa'r Harbwr ymlaen llaw i drafod y manylion. Fel rhan o'n dyletswyddau statudol, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth gyhoeddi Hysbysiad i Forwyr i roi gwybod i ddefnyddwyr yr harbwr am unrhyw weithgaredd a allai fod yn berygl mordwyo posib.

Mae'r Gwasanaeth yn dymuno tymor llwyddiannus i holl drefnwyr y digwyddiadau ac yn gobeithio am dywydd ffafriol. Byddwn yn parhau i gefnogi trefnwyr digwyddiadau i weithredu gweithdrefnau diogel i sicrhau bod yr holl weithgareddau yn yr harbwr yn cael eu cynnal yn ddiogel.

**4. ARGYMHELLION:**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad.